**Y Pwyllgor Busnes** **BC22-01(terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 23 Ionawr 2001
**Amser:** 9.00am
**Lle:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Presennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai ar gael i gadeirio cyfarfod yr wythnos nesaf. Yn unol â Rheol Sefydlog 13.4, cytunodd Kirsty Williams i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### BC350-00 (terfynol)

2.1 Cafodd y cofnodion eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar eu gwedd derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### BC11-01 (drafft)

2.2 Cafodd y cofnodion eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd mân welliannau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y fersiwn terfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn Codi

3.1 **Paragraff 3.2** – Dywedodd Marie Knox y byddai'r papur ar y diwygio arfaethedig ar Reol Sefydlog 12 yn barod ar gyfer cyfarfod yr wythnos nesaf. Yr oedd yn peri pryder i Kirsty Williams fod hyn yn cymryd cymaint o amser o gofio bod y Pwyllgor Archwilio wedi lleisio ei bryderon dro yn ôl. Byddai hi'n cael ei gwahardd o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn ddiweddarach yn ystod yr

wythnos ac yr oedd yn anodd trefnu i rywun gymryd ei lle gan fod ei grŵp gwleidyddol yn un bach. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y bu'n rhaid ystyried y pryderon a leisiwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Dywedodd Marie Knox fod y mater wedi bod yn gymhleth a'i bod yn bwysig sicrhau bod y geiriad arfaethedig yn gywir. **Gweithredu: Marie Knox i gyflwyno'r diwygiadau yng nghyfarfod yr wythnos nesaf**

3.2 **Paragraff 4.4** – Nodwyd bod swyddogion wedi trefnu cyfarfod i drafod gwelliannau i gynigion sy'n cynnig dadleuon ar y pwyllgorau pwnc. Dywedodd Marie Knox y gallai fod yn briodol ymgynghori â Phanel y Cadeiryddion am unrhyw gynigion. **Gweithredu: Swyddogion i gyflwyno cynigion yn y man**

3.3 **Paragraff 5.1** – Dywedodd William Graham fod ei grŵp yn fodlon ar y cynigion parthed y wedd newydd ar agendâu'r cyfarfodydd llawn.

3.4 **Paragraff 8.7** – Byddai cyflwyno is-ddeddfwriaeth ar y gwefannau, a sicrhau ei bod ar gael yno, yn cael eu hystyried mewn cyfarfod diweddarach.

## 4. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

4.1 Yr oedd Lorraine Barrett wedi gofyn i'r Trefnydd drefnu bod amser ar gael i'r Cynulliad drafod materion rhyngwladol. Yr oedd ef wedi cytuno i drafod y mater yn y Pwyllgor Busnes. Y farn gychwynnol a leisiwyd gan y Pwyllgor oedd y câi'r Aelodau ar y meinciau cefn godi'r cyfryw faterion mewn dadl fer neu drwy Ddatganiad Barn. Er hynny, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried y mater o fewn eu grwpiau. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad am weithdrefnau

5.1 Dim.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Dim.

## 7. Busnes at y dyfodol

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ateb cwestiynau llafar yn absenoldeb y Prif Weinidog y prynhawn hwnnw. Dywedodd y byddai Edwina Hart yn gwneud datganiad yn nes ymlaen am ei sefyllfa mewn perthynas â Chanolfan Mileniwm Cymru; ac y byddai Jane Hutt yn gwneud datganiad ddydd Iau 25 Ionawr ynghylch y safonau cenedlaethol gofynnol ar gyfer gofalu am yr henoed. Yn ogystal, yr oedd yn bosibl y byddai datganiad am Corus ond byddai hynny'n dibynnu ar unrhyw ddatganiadau y byddai'r cwmni yn eu gwneud.

7.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r datganiad busnes drafft (BC19-01).

**<u>Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 29 Ionawr, 5 a 12 Chwefror 2001</u>**

7.3 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd am ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 29 Ionawr, 5 a 12 Chwefror oedd y dylai fynd ymlaen yn unol â'r amlinelliad yn y datganiad busnes drafft. Yr oedd hyn ar ôl i'r Trefnydd gytuno i ymestyn yr amser a fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer y ddadl am ddatblygiad proffesiynol athrawon ar 30 Ionawr. Esboniodd y Trefnydd nad oedd ond ychydig o fusnes ar yr amserlen ar gyfer y diwrnod hwnnw gan y disgwylid datganiadau gan y Cabinet. Cytunwyd y byddai amseru busnes yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Chwefror.

7.4 Dywedodd Marion Stapleton y bu'n rhaid tynnu cynnig yn ôl parthed mabwysiadu'r datganiad trimisol am yr amserlen am na chafwyd ymgynghori ffurfiol â'r Pwyllgor Busnes fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 5.2. Ar ôl hynny, bu ymgynghori â'r Rheolwyr Busnes drwy'r e-bost, a chan nad oedd ganddynt sylwadau i'w cynnig, cytunwyd y ceid cyflwyno'r cynnig. Cytunwyd y byddai'r drafft, yn y dyfodol, yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor fel y byddai'r Rheolwyr Busnes yn cael ymgynghori â'u grwpiau. **Gweithredu: Marion Stapleton i gyflwyno cynnig**

7.5 Holodd y Trefnydd a oedd gan y Rheolwyr Busnes unrhyw awgrymiadau ynghylch dadl Gŵyl Ddewi ar 1 Mawrth a dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yr wythnos wedyn. Cytunwyd y byddai'r awgrymiadau yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 13 Chwefror. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes i ystyried hyn**

**<u>8. Is-ddeddfwriaeth</u>**

**<u>Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001</u>**

8.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC13-01 a oedd yn darparu cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol (ar ôl cais gan Jocelyn Davies am ddadl am y Gorchymyn drafft).
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad)(Diwygio) (Cymru) 2001</u>**

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC14-01 a oedd yn darparu cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn

drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam. **Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001</u>**

8.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC15-01 a oedd yn darparu cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol. **Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio)(Cymru) 2001</u>**

8.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC16-01 a oedd yn darparu cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam. **Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol)(Cymru) 2001</u>**

8.5 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC17-01 a oedd yn darparu cyngor gan Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam. **Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion)(Diwygio)(Cymru) 2001</u>**

8.6 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC21-01 a oedd yn darparu cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig ynghylch peidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol (ar ôl cais gan Jocelyn Davies am ddadl am y Gorchymyn drafft).
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>9. Diwygiadau i Reolau Sefydlog</u>**

9.1 Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC18-01 – Adroddiad y Pwyllgor Busnes am ddiwygiadau i Reolau Sefydlog 3 a 6 – a chytuno arno. Bellach,

byddai’r Adroddiad yn cael ei osod yn ffurfiol yn y Swyddfa Gyflwyno a byddai cynnig yn cael ei baratoi.

9.2 Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC20-01 am gynigion ynghylch cydnabod y term “Gweinidog” yn yr adran ‘Dehongli’ yn y Rheolau Sefydlog. Lleisiodd William Graham bryderon ynghylch y teitl Cymraeg ‘Prif Weinidog’ (nad yw’n gwahaniaethu rhwng ‘Prime Minister’ a ‘First Minister’); ac ynghylch yr angen am gynnwys diffiniad o ‘Ddirprwy Brif Weinidog’, a holodd a oedd angen newid y Rheolau Sefydlog er mwyn cyfeirio at deitlau o ran cwrteisi. Cytunwyd y byddai’r Rheolwyr Busnes yn ystyried hyn o fewn eu grwpiau ac yn adrodd yn ôl ar 6 Chwefror. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

**<u>10. Dyfarniadau gan y Llywydd</u>**

10.1 Dim.

**<u>11. Unrhyw fusnes arall</u>**

11.1 Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**